| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **12 RHAGFYR 2008** |
| **TEITL** | **ADOLYGU'R DATGANIAD CYDYMFFURFIAD A'R DREFN LYWODRAETHOL** |
| **ARGYMHELLIAD** | **FOD Y DATGANIADAU YN CAEL EU CYMERADWYO YN FFURFIOL** |
| **AWDUR** | **SWYDDOG PENSIYNAU A BUDDSODDIADAU** |

**1. Cefndir**

1.1 Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor yma penderfynwyd peidio cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau am y rheswm mai Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â'r gronfa ac y byddai'n anodd dewis cynrychiolwyr eraill o blith y cyflogwyr.

Penderfynwyd fodd bynnag y dylid argymell i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol y dylid diwygio cyfansoddiad y Pwyllgor Pensiynau er mwyn caniatáu hawl pleidleisio i'r un cynrychiolydd yr un, o Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Yn sgil y penderfyniadau yma cytunodd y Pwyllgor hefyd i drefnu bod cyfarfodydd anffurfiol gyda'r cyflogwyr yn cael eu trefnu. Mae llythyr ymgynghoriad wedi cael ei anfon allan i'r holl gyflogwyr ar y 30/11/08 yn ceisio eu barn ar y drefn yma.

1.2 Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu penderfyniadau'r Pwyllgor fel y nodir mewn print bras isod.

1.3 Diwygiadau i'r Datganiad Polisi Llywodraethu:-

*"Mae gan y Pwyllgor 9 aelod, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd, 1 aelod o Gyngor Môn a 1 aelod o Gyngor Conwy***, i gyd gyda hawl pleidleisio***. Ar hyn o bryd, nid oes cynrychiolaeth o aelodau'r gronfa (staff) ar y pwyllgor."*

1.4 Diwygiadau i'r Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Lywodraethol:-

Egwyddor A, Cymal b)

| | |
|---|---|
| b) | Bod cynrychiolwyr o gyflogwyr sy'n rhan o'r CPLlL, o'r cyrff â ganiateir ag aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau ar unai'r prif neu'r ail bwyllgor, a sefydlwyd i ategu gwaith y prif bwyllgor. |
| | Mae Cronfa Gwynedd yn rhannol gydymffurfio gyda'r egwyddor yma. Mae cynrychiolwyr o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLlL, yn aelodau ar y prif bwyllgor. Ar hyn o bryd, er mwyn ceisio cadw pwyllgor cymharol fychan i adolygu perfformiad y rheolwyr mewn modd effeithiol, does dim cynrychiolaeth o'r cyrff â ganiateir nag aelodau'r cynllun ar y pwyllgor. Gan fod yr addewid o bensiwn yn cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth ar gyfer aelodau'r cynllun, hyd yn hyn ni ystyrir bod gweithrediad y Pwyllgor yn |

| | |
|---|---|
| | gwrthdaro gyda'u buddiannau, felly nid ydym wedi cynnig cynrychiolaeth iddynt. **Mae gan bob cyflogwr gyfle i ddylanwadu penderfyniadau drwy gyfres o gyfarfodydd cyflogwyr anffurfiol.** |

Egwyddor A, Cymal c)

| | |
|---|---|
| c) | Ble mae ail bwyllgor neu banel wedi ei sefydlu, mae'r strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y ddau lefel. |
| | Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli, **ond bydd y cyfarfodydd anffurfiol yn sicrhau cyfathrebu effeithiol.** |

Egwyddor D, Cymal a)

| | |
|---|---|
| a) | Mae polisi awdurdodau gweinyddol unigol ar hawliau pleidleisio yn glir a thryloyw, gan gynnwys y cyfiawnhad dros beidio ag ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grŵp sy'n cael ei gynrychioli ar brif bwyllgorau'r CPLlL. |
| | Mae gan y Pwyllgor Pensiynau 9 aelod, **i gyd gyda hawl pleidleisio**, ple mae 7 ohonynt yn aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd (gyda hawl pleidleisio) ag 1 cynrychiolydd yr un o ddau gyflogwr sy'n rhan o'r CPLlL. |

Egwyddor F, Cymal b)

| | |
|---|---|
| b) | Bod ail bwyllgor neu banel yr awdurdod gweinyddol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac wedi eu cydamseru gyda'r dyddiadau y mae'r prif bwyllgor yn cyfarfod. |
| | Does dim ail bwyllgor na phanel yn bodoli - **ond mae'r cyfarfodydd cyflogwr anffurfiol yn gydamseredig gyda dyddiadau'r prif bwyllgor.** |

## 2. Argymhelliad

2.1 Gofynnir i'r pwyllgor gymeradwyo rhain yn ffurfiol.